# CYNGOR SIR POWYS

Powys

# POWYS COUNTY COUNCIL

## Gwahoddir Datganiadau o Ddiddordeb Mewn Bod yn Aelod o'r Fforwm

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Powys yn y broses o benodi aelodau i Fforwm Mynediad Lleol Powys ac eithrio'r ardal honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel sy'n ofynnol o dan adran 94 ac adran 95 Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Bydd 15 aelod ar y Fforwm.

Swyddogaeth y Fforwm fydd i gynghori Cyngor Sir Powys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill, ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y Fforwm yn cyfarfod rhwng dau i bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n bwysig bod yr aelodau'n gallu mynychu'r holl gyfarfodydd gan na fydd dirprwyon yn cael eu caniatáu. Mae'r rhain yn swyddi di-dâl ond bydd aelodau'r Fforwm yn medru hawlio costau rhesymol.

Mae'r Cyngor yn chwilio am ymgeiswyr a fydd yn sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy lleol neu hawliau mynediad, a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd â mynediad neu dir lle mae hawliau tramwy lleol yn bodoli. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau cydbwysedd teg rhwng pobl o wahanol ryw, hil, oedran neu gydag anableddau a nodweddion eraill.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cael eu hystyried i fod yn aelod gael rhagor o wybodaeth gan: Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Powys, Er Sylw Mark Stafford-Tolley, Cyngor Sir Powys, Swyddfeydd y Gwalia, Ffordd Ithon, Llandrindod, Powys, LD1 6AA drwy ffonio 01597 827677 neu e-bost mark.stafford-tolley@powys.gov.uk.

**Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 15 Tachwedd 2013**

## Invitation for Expressions of Interest in Becoming a Member of The Forum

Powys County Council is currently in the process of appointing a Powys Local Access Forum, excluding that area within the Brecon Beacons National Park as required under the s.94 and s.95 Countryside & Rights of Way Act 2000. The Forum will consist of 15 members.

The function of the Forum will be to advise the Powys County Council, the Natural Resources Wales, the Welsh Government and others, as to the improvement of public access to land in the area, for the purposes of open-air recreation and the enjoyment of the area.

The Forum will meet between two and four times a year. It is important that members can attend all meetings, as deputies will not be permitted. These are unpaid positions but Forum members will be able to claim reasonable expenses.

The Council seeks applicants which will achieve a reasonable balance between the interests of users of local public rights of way or the rights of access and of owners or occupiers of access land or land over which local rights of way subsist and also seeks to ensure a fair balance between persons of different genders, races, ages, disabilities and other characteristics.

Any person wishing to be considered for membership can obtain further details from: Secretary to Powys LAF, FAO Mark Stafford-Tolley, Powys County Council, Gwalia Offices, Ithon Road, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6AA by telephone 01597 827677 or email mark.stafford-tolley@powys.gov.uk.

**Closing date for receipt of applications: 15 November 2013**